| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI |
| **DYDDIAD** | 18 Gorffennaf 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi 2024/25 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 24 Ebrill 2024 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2024/25. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Y prif flaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn, oedd:

1. Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig
= Cynllun Economi Gwynedd
2. Presenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd
= Cludiant Addysg
= Polisi Iaith Addysg
= Cyllidebau Refeniw Ysgolion
= Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri

3. Bu aelodau yn trafod y prif flaenoriaethau yn ogystal â beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2024/25. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

4. Blaenoriaethwyd eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

5. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

6. Adnabuwyd 'Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru' fel eitem wrth gefn oherwydd y newidiadau sydd ar y gweill gyda Chyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd. Gofynnir am ddiweddariadau ysgrifenedig, gan flaenoriaethu'r mater i'w graffu os oes pryder yn codi yn ystod y flwyddyn.

7. Ni ddaethpwyd i gasgliad yn y gweithdy os dylid blaenoriaethu'r Ymchwiliad Craffu Cefnogi Mentrau Cymunedol/Cymdeithasol.

8. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

9. Derbyniwyd cais yn dilyn y gweithdy i graffu 'Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion'. Ychwanegwyd yr eitem i'w ystyried yn y cyfarfod yma er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn sicrwydd o ran y trefniadau.

10. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.

11. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2024/25

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **18/7/24** | • Adroddiad Blynyddol GwE | Eitem Blynyddol / Sicrwydd |
| | • Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion | Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol |
| | • Trefniadau Diogelu mewn ysgolion | Sicrwydd o ran y trefniadau |
| | • Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus |
| | | |
| **17/10/24** | • Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn | Adroddiad Archwiliwr Allanol |
| | • Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Strategaeth Llesiant Staff | Craffu cefnogaeth llesiant staff |
| | | |
| **12/12/24** | • Cyllidebau Refeniw Ysgolion | Effaith ar ysgolion Gwynedd |
| | • Cludiant Addysg | Gorwariant yn y maes |
| | • Cyfundrefn Addysg Drochi | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | | |
| **13/2/25** | • Polisi Iaith Addysg | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg |
| | • Cynllun Economi Gwynedd | Cynllun Strategol |
| | | |
| **10/4/25** | • Gwasanaeth Ieuenctid | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory |
| | • Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig | Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol |

**Eitem wrth gefn** **-** Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru